Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin yr Enfys
# Clwb Bechgyn a Merched
# Ffordd Lisburn
# Ystrad Mynach
# Caerffili
# CF82 7AS

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 05/04/2017**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin yr Enfys, sy'n cwrdd yn y Clwb Bechgyn a Merched yn Ystrad Mynach, yn awdurdod lleol Caerffili.

Mae'r lleoliad yn agor am bum niwrnod yr wythnos ac yn cyflogi pedwar ymarferydd. Mae wedi cofrestru i dderbyn 24 o blant o ddwy i bedair oed. Ar hyn o bryd, mae 25 o blant ar y gofrestr, y mae saith ohonynt yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol i dderbyn addysg gynnar.

Mae bron pob un o'r plant o dras gwyn Prydeinig, ac mae bron pawb yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf. Ni nodwyd bod anghenion dysgu ychwanegol gan unrhyw blant ar hyn o bryd. Ymgymerodd yr arweinydd â'i swydd ym Mai 2015.

Mae'r lleoliad yn aelod o'r Mudiad Meithrin a chaiff ei reoli gan bwyllgor gwirfoddolwyr. Ym Mai 2014 yr arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Hwn yw arolygiad cyntaf y lleoliad gan Estyn o dan gofrestriad newydd.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Digonol |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Bod rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad
- Bod mwyafrif y plant yn canolbwyntio am gyfnodau priodol a'u bod yn ymgysylltu'n effeithiol â'u dysgu
- Bod llawer o blant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad
- Bod ymarferwyr yn darparu ystod gyffrous ac ysgogol o brofiadau dysgu mewn llawer o feysydd dysgu sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y plant yn llwyddiannus
- Bod gan yr holl ymarferwyr wybodaeth dda am y Cyfnod Sylfaen a'u bod yn deall pwysigrwydd darparu profiadau uniongyrchol o ansawdd da
- Bod perthynas gefnogol ac anogol gan yr ymarferwyr â'r plant
- Bod y lleoliad yn darparu amgylchedd diogel a gofalgar a bod ganddo drefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles plant

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn ddigonol oherwydd:

- Bod yr arweinydd yn brofiadol ac yn sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol fel tîm i ddarparu llawer o brofiadau ysgogol o ansawdd da i'r plant
- Bod y lleoliad yn dechrau gweithio'n briodol gydag ystod o bartneriaid i wella'r ddarpariaeth a chodi safonau cyrhaeddiad a lles
- Bod digon o ymarferwyr â chymwysterau a phrofiad addas gan y lleoliad i weithio gyda phlant ifanc a bod yr arweinydd yn gwneud defnydd da o fedrau ac arbenigedd unigol ymarferwyr i gyflwyno meysydd dysgu penodol

Fodd bynnag:

- Nid yw'r pwyllgor rheoli yn cefnogi'r arweinydd i osod cyfeiriad strategol neu'n herio ymarferwyr i wella safonau neu ddarpariaeth yn ddigon da
- Nid yw'r trefniadau ar gyfer hunanarfarnu wedi nodi'r holl feysydd pwysig i'w datblygu
- Nid yw'r cynllun datblygu yn cynnwys meini prawf llwyddo a graddfeydd amser clir i sicrhau bod gwelliannau gofynnol yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac yn amserol
- Mae adnoddau'n brin oherwydd cyfyngiadau ariannol
- Nid yw gweithdrefnau ariannol yn eu lle i sicrhau trylwyrder ac atebolrwydd wrth reoli cyllid y lleoliad

## Argymhellion

A1 Gwella medrau datrys problemau a medrau meddwl plant

A2 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau darllen a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) plant

A3 Sefydlu pwllgor rheoli effeithiol sy'n cefnogi'r arweinydd i osod cyfeiriad strategol a herio ymarferwyr i wella safonau a darpariaeth

A4 Gwella'r prosesau ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio datblygu fel eu bod yn nodi ac yn mynd i'r afael â meysydd pwysig i'w gwella

A5 Datblygu cysylltiadau a phartneriaethau cymunedol i gefnogi dysgu'r plant

A6 Datblygu systemau rheoli cadarn ac effeithiol i fonitro a chyfrif am gyllid y lleoliad

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y plant yn dod i mewn i'r lleoliad gyda medrau sydd islaw'r lefel a ddisgwylir am eu hoedran. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad, yn enwedig o ran datblygu eu medrau iaith a rhifedd.

Mae rhan fwyaf y plant yn gwrando ar oedolion ac ar ei gilydd, ac maent yn dechrau ymateb yn briodol i sylwadau ac arsylwadau gan eraill. Mae mwyafrif o blant yn gwrando ar stori ac yn ailadrodd neu'n ymateb i eiriau a chwestiynau yn Gymraeg. Maent yn siarad yn glir, er enghraifft wrth ddisgrifio'r her o ddod o hyd i Sioni Rhew yn yr ardal awyr agored. Mae llawer ohonynt yn esbonio ac yn arddangos emosiynau wrth ganu caneuon cyfarwydd, a chyfeiriant at yr emosiynau hyn yn ddigymell yn ystod gweithgareddau. Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da o ran caffael medrau iaith, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o frawddegau, cwestiynau a chyfarwyddiadau cyfarwydd. Mae llawer yn defnyddio'r termau cywir ar gyfer rhifo a disgrifio maint a siapiau. Mae bron yr holl blant yn canu ystod o ganeuon yn hyderus i nodi adegau o'r dydd, fel amser i dacluso, amser cylch neu ddiwedd y sesiwn.

Mae llawer o blant yn mwynhau edrych ar lyfrau. Mae lleiafrif yn gwybod sut i ddal llyfr y ffordd iawn, ac maent yn siarad am ddarluniau ac yn hoffi rhannu stori gydag oedolyn. Mae ychydig ohonynt yn adnabod cymeriadau ac yn disgrifio eu gweithredoedd.

Mae mwyafrif o blant yn mwynhau gwneud marciau ac yn arbrofi gydag ystod eang o gyfryngau fel pennau, sialc a phaent. Mae llawer ohonynt yn deall swyddogaethau ysgrifennu, fel ysgrifennu rhestrau siopa. Gall ychydig ddynwared oedolyn yn ysgrifennu gan ddefnyddio 'pen oedolyn'. Mae llawer o blant yn gwneud marciau'n annibynnol wrth ddal pennau ffelt a defnyddio sialc i gymysgu lliwiau wrth dynnu llun.

Mae rhan fwyaf y plant yn defnyddio iaith fathemategol yn bwrpasol mewn cyd-destunau perthnasol, fel disgrifio maint cylch y maent ei eisiau neu wrth dorri siapiau o does. Mae rhan fwyaf y plant yn cyfrif i bump yn gywir, ac mae lleiafrif yn cyfrif i ddeg heb anogaeth. Er enghraifft, maent yn cyfrif faint o sanau sydd ar y lein ddillad, a faint sydd yn barau cyfatebol. Mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso'u medrau rhifedd heb anogaeth i gyfrif arian wrth siopa yn yr ardal chwarae rôl.

Mae mwyafrif o blant yn datblygu'u medrau corfforol yn dda ac yn defnyddio plicwyr, gefeiliau ac offer ysgrifennu gyda rheolaeth gynyddol. Mae llawer yn defnyddio'r offer awyr agored yn fedrus i falansio, neidio, troi trwy gylchoedd a phedalu ar dractorau.

Mae rhan fwyaf y plant yn defnyddio ystod gyfyngedig o offer TGCh yn briodol, fel ffonau symudol a chlorian electronig yn yr ardal chwarae rôl. Mae ychydig yn

defnyddio chwaraewr cryno-ddisgiau yn annibynnol i newid disgiau neu i ganfod cân y maent yn ei mwynhau.  Mae lleiafrif o blant yn dechrau datblygu'u medrau meddwl, fel gweithio allan sut i atal tŵr uchel rhag dymchwel.  Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw plant yn datblygu'u medrau meddwl a'u medrau datrys problemau yn ddigon da.

**Lles:  Da**

Mae bron pob un o'r plant yn ymgartrefu'n gyflym pan fyddant yn cyrraedd y lleoliad, ac maent yn awyddus i ddechrau gweithgareddau cyn gynted â phosibl.  Gwnânt ddewisiadau annibynnol ynglŷn â beth maent am ddysgu a ble.  Mae mwyafrif o blant yn canolbwyntio am gyfnod priodol, ac maent yn ymgysylltu'n effeithiol â'u dysgu, er enghraifft, wrth ddilyn rhestr siopa neu wrth greu trac trenau.  Mae plant yn trafod testunau'n rheolaidd ac yn dechrau cyfrannu eu syniadau at gynllunio yn briodol.  O ganlyniad, mae llawer yn frwdfrydig ynglŷn â'u dysgu; er enghraifft, maent yn ymateb gyda diddordeb i eira sydd wedi disgyn yn ddiweddar, ac maent eisiau gwybod mwy amdano.

Mae llawer o blant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad, ac mae llawer yn dilyn arferion fel tacluso ac eistedd yn ystod amser byrbryd.  Mae'r rhan fwyaf yn cydweithredu'n dda â'i gilydd ac mae llawer ohonynt yn rhannu offer TGCh ac yn cymryd eu tro wrth weithio yn y siop.  Mae bron pob un o'r plant yn gwrtais ac yn barchus tuag at oedolion.  Maent yn llawn cymhelliant, ac yn teimlo'n gyffrous wrth rannu eu profiadau gydag eraill, er enghraifft wrth ganfod gwe pry cop yn yr awyr agored.

Mae bron yr holl blant yn deall bod angen iddynt olchi eu dwylo cyn bwyta, a gall y rhan fwyaf wneud hyn yn annibynnol.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Digonol**

Mae ymarferwyr yn darparu ystod o brofiadau dysgu cyffrous ac ysgogol mewn llawer o feysydd dysgu sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y plant yn llwyddiannus.  Maent wedi mireinio cynlluniau'n ddiweddar i wella lefelau cymorth a her i'r plant i gyd.  Mae pob un o'r ymarferwyr yn cyfrannu at gynllunio yn dilyn eu harsylwadau o sut mae plant yn datblygu'u medrau.  Mae hyn yn sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn gwybod pa fedrau y mae angen i blant eu datblygu yn ystod gweithgareddau.  Mae ymarferwyr yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu ystod addas o fedrau llythrennedd a rhifedd ar draws yr holl feysydd dysgu.  Fodd bynnag, cyfyngedig yw cyfleoedd i ddatblygu medrau darllen cynnar plant.

Mae ymarferwyr yn dechrau ystyried diddordebau plant wrth gynllunio tasgau a themâu.  Maent yn darparu cyfleoedd diddorol i blant ymchwilio ac arbrofi, ac i ddatblygu medrau dysgu'n annibynnol.  Maent yn canolbwyntio ar ddatblygu diddordeb yn y byd o'u hamgylch drwy arbrofi gydag ystod eang o ddeunyddiau naturiol fel rhew, pridd, coed a dail.  Mae'r lleoliad yn darparu ystod eang o heriau a gweithgareddau corfforol addas, ac mae ymarferwyr yn cynorthwyo disgyblion â thargedau penodol yn dda, er enghraifft dysgu i bedalu a balansio.  Mae ymarferwyr yn annog plant i ddatblygu'u creadigrwydd yn fedrus.  Er enghraifft, maent yn modelu llun ar raddfa fawr ac yn canmol cyflawniadau plant.

Nid yw cyfleoedd i hyrwyddo medrau plant mewn defnyddio TGCh wedi'u datblygu gystal. Mae llawer o blant yn defnyddio ystod gyfyngedig o offer TGCh yn hyderus, er enghraifft wrth bwyso'u creadigaethau yn y gegin fwd ar glorian electronig, ac wrth ddefnyddio'r orsaf wrando i ganu caneuon. Mae ychydig ohonynt yn defnyddio camera yn briodol i gofnodi eu gwaith.

Gwna ymarferwyr ddefnydd effeithiol o'r Gymraeg ac mae'r rhan fwyaf yn fodelau rôl iaith da. Maent yn cyflwyno'r iaith yn systematig, a chaiff hyn effaith fuddiol ar ddatblygu medrau Cymraeg plant. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd addas i blant ddysgu am eu hunaniaeth ddiwylliannol trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen. Ceir ystod eang o gyfleoedd i blant ganu amrywiaeth o ganeuon a rhigymau Cymraeg. Mae plant yn cael cyfleoedd cyffrous i ymgyfarwyddo â chymeriadau a llyfrau Cymraeg.

Mae'r lleoliad wedi defnyddio'r ardal ar gyfer gweithgareddau o bryd i'w gilydd, ond nid yw'r plant yn cael ymweliadau y tu allan i'r lleoliad yn rheolaidd, nac yn dysgu gan ymwelwyr â'r lleoliad. O ganlyniad, nid yw plant yn cael digon o gyfleoedd i ddysgu am eu cymuned ac i ehangu eu dealltwriaeth o'r byd maent yn byw ynddo.

**Addysgu: Da**

Mae perthynas gefnogol ac anogol gan yr ymarferwyr â'r plant. Maent yn darparu heriau a phrofiadau cyffrous i'r holl blant. Mae gan bob un o'r ymarferwyr wybodaeth dda am y Cyfnod Sylfaen, ac maent yn deall pwysigrwydd darparu profiadau uniongyrchol o ansawdd da. Mae llawer o ymarferwyr yn addasu ac yn newid y ddarpariaeth yn unol ag anghenion a diddordebau'r plant. Er enghraifft, maent yn cyflwyno gêm i gyfri'r plu eira yn yr ardal awyr agored. Mae ymarferwyr yn gweithio'n bwrpasol yn ystod y sesiynau ac yn ymyrryd yn effeithiol yn nysgu'r plant. Defnyddiant dechnegau holi effeithiol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu medrau a dealltwriaeth y plant.

Mae ymarferwyr yn cynnal arsylwadau cyffredinol o weithgareddau wedi'u cynllunio. Defnyddiant y rhain yn effeithiol i lywio cynllunio ac i gynllunio tasgau â ffocws yn seiliedig ar anghenion a gallu unigol y plant. O'r asesiadau hyn, maent yn cynllunio camau nesaf plant er mwyn sicrhau dilyniant trwy gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae canlyniadau asesu yn bwydo i broffil pob plentyn fel bod ymarferwyr yn olrhain cynnydd plant yn briodol yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad.

Mae ymarferwyr yn darparu adborth dyddiol defnyddiol i rieni am gynnydd eu plentyn a'r gweithgareddau y maent wedi'u gwneud. Mae adroddiadau blynyddol yn rhoi gwybodaeth fuddiol i rieni am gynnydd eu plentyn. Mae ymarferwyr yn rhannu canlyniadau asesiadau yn ystod cyfarfodydd er mwyn rhoi gwybod i rieni am gynnydd eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd diogel a gofalgar ac mae ganddo drefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles plant. Mae ymarferwyr yn hybu bwyta bwydydd iach ac yn annog plant i flasu ffrwythau newydd ac i yfed llaeth. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd priodol i blant wneud ymarfer corff, a defnyddiant y neuadd chwaraeon ac

ardal gegin fawr i ddarparu digon o le i blant fod yn gorfforol weithgar. Mae ymarferwyr yn trin plant gyda pharch ac yn gwrando ar eu barnau a'u safbwyntiau. Pan fydd yn briodol, mae'r ymarferwyr yn cofnodi'r rhain ac yn eu cynnwys yn eu cynllunio.

Mae'r lleoliad yn darparu'n dda ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol, a diwylliannol plant. Er enghraifft, mae plant yn dangos ymdeimlad o ryfeddod ac yn dangos gofal a pharch at bethau byw pan fyddant yn darganfod corryn yn eu sied tu allan. Mae ymarferwyr yn eistedd gyda'r plant yn ystod amser byrbryd i ddatblygu'u medrau cymdeithasol wrth drafod eu gweithgareddau a'u diddordebau. Maent yn annog plant i aros a chymryd eu tro, ac i ddweud plîs a diolch am eu byrbryd.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu ymwybyddiaeth o arferion a chredoau eraill, er enghraifft, trwy ddathlu Diwali a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Caiff y dathliadau hyn eu plethu yn y meysydd dysgu, er enghraifft trwy baratoi pryd Tsieineaidd yn yr ardal chwarae rôl. Mae'r rhain yn gyfleoedd buddiol i blant gymryd cyfrifoldeb am dacluso'u hamgylchedd ac i ailddefnyddio papur, cardfwrdd a chynwysyddion.

Nid oes unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn y lleoliad ar hyn o bryd. Mae pob un o'r ymarferwyr yn deall y gweithdrefnau i gefnogi plant, ac maent yn gwybod sut i ddefnyddio'r rhwydwaith o asiantaethau allanol priodol, pe bai'r angen yn codi. Mae ymarferwyr yn rhoi cymorth emosiynol da i'r plant. Mae pob un o'r staff yn cymhwyso hyfforddiant penodol ac yn ystyried cyfarwyddiadau rhieni i gefnogi unigolion ag anghenion penodol yn effeithiol.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae gan y lleoliad ethos cadarnhaol a chynhwysol y mae'n ei hyrwyddo'n dda drwy ei weithgareddau ac agwedd gefnogol yr ymarferwyr. Mae'r staff yn groesawgar ac yn hawdd mynd atynt, ac maent yn sicrhau bod pob un o'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Caiff pob plentyn fynediad cyfartal i'r holl feysydd dysgu, tu mewn i'r adeilad a thu allan.

Mae'r lleoliad mewn neuadd leol ac yn rhannu ardaloedd cymunedol fel y neuadd chwaraeon a mannau bwyta. Mae'r adeilad yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n ddigonol. Gwna'r ymarferwyr ddefnydd effeithiol o'r mannau estynedig hyn i ddarparu ardaloedd mawr i'r plant ddatblygu'u medrau corfforol. Mae ymarferwyr wedi gweithio'n effeithiol gyda'r athro ymgynghorol i greu ardaloedd dysgu sydd wedi'u diffinio'n glir. Mae'r rhain yn cynnwys ardal chwarae rôl ysgogol sy'n ymgorffori llythrennedd a rhifedd yn effeithiol. Mae offer ar gael yn rhwydd i'r plant ei ddefnyddio, ac mae hyn yn eu helpu i ddod yn ddysgwyr hyderus. At ei gilydd, fodd bynnag, nid oes digon o adnoddau o ansawdd da. Adnoddau cyfyngedig iawn sydd gan y lleoliad mewn rhai meysydd o'r cwricwlwm; yn benodol, mae diffyg llyfrau o ansawdd da ac offer TGCh.

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol sy'n rhoi pwyslais priodol ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Caiff y plant gyfleoedd rheolaidd i wneud gweithgareddau sy'n dathlu bywyd eu ffrindiau ledled y byd.

Mae arddangosiadau i hyrwyddo a dathlu gwaith plant yn addas, ond nid ydynt yn cynnwys gwaith creadigol annibynnol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r arweinydd yn brofiadol ac yn sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol fel tîm i ddarparu profiadau ysgogol o ansawdd da i'r plant. Mae wedi creu ethos cadarnhaol o fewn y lleoliad sydd yn rhoi ffocws ar ddatblygu dysgwyr chwilfrydig sy'n dechrau cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r arweinydd yn cyfathrebu'n effeithiol gyda'r holl ymarferwyr i gytuno ar weledigaeth ar gyfer y lleoliad. Mae'r gydweledigaeth hon yn canolbwyntio'n addas ar wella'r ddarpariaeth ac ansawdd yr addysgu. Mae'r arweinydd yn annog staff i arfarnu effeithiolrwydd yr addysgu a gweithgareddau wedi'u cynllunio, ac yn gwerthfawrogi eu hadborth. Fodd bynnag, nid oes digon o ffocws ar wella safonau plant, yn enwedig mewn darllen a TGCh.

Mae'r arweinydd wedi datblygu trefniadau addas i arfarnu perfformiad ymarferwyr. Mae'r gwerthusiadau blynyddol hyn yn arwain at dargedau cytûn a nodi anghenion hyfforddi'r dyfodol yn briodol.

Dros gyfnod, mae'r lleoliad wedi dioddef yn sgil diffyg cefnogaeth gan bwyllgor rheoli effeithiol. Mae'r pwyllgor sydd newydd ei ffurfio yn dechrau deall ei rôl a'i gyfrifoldebau, ond megis dechrau cael ei ddatblygu y mae hyn. O ganlyniad, nid yw'n cefnogi'r arweinydd i osod cyfeiriad strategol neu herio ymarferwyr i wella safonau a'r ddarpariaeth yn ddigon da.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Megis dechrau cael ei ddatblygu y mae hunanarfarnu. Mae'r arweinydd wedi cyflwyno ystod o weithdrefnau i arfarnu perfformiad y lleoliad ac i nodi meysydd i'w gwella. Mae ymarferwyr yn cyfarfod yn wythnosol i adnabod a mynd i'r afael â materion o ddydd i ddydd. Maent yn cydweithio i arfarnu perfformiad y lleoliad, sy'n canolbwyntio ar ddarpariaeth a gweithdrefnau'r lleoliad. Maent yn magu hyder o ran nodi gwelliannau yn y ddarpariaeth. Mae ymarferwyr wedi nodi cryfderau'r lleoliad. Fodd bynnag, nid ydynt wedi nodi'r holl feysydd pwysig i'w datblygu, ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon da ar y safonau y mae plant yn eu cyflawni yn yr holl feysydd dysgu. Nid yw'r pwyllgor rheoli yn rhan o'r broses hunanarfarnu. O ganlyniad, nid ydynt yn dyrannu adnoddau'n strategol i gefnogi gwelliannau. Er bod y lleoliad yn gwrando ar farnau rhieni'n anffurfiol, nid oes unrhyw brosesau ffurfiol i ymgynghori â nhw.

Mae'r cynllun datblygu yn blaenoriaethu camau gweithredu o hunanarfarnu yn briodol. Mae'n ddogfen ddefnyddiol y mae ymarferwyr yn ei defnyddio i olrhain gwelliannau. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys meini prawf llwyddo a graddfeydd amser clir i sicrhau bod gwelliannau gofynnol yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol ac yn amserol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae'r lleoliad yn dechrau gweithio'n briodol gydag ystod o bartneriaid i wella'r ddarpariaeth ac i godi safonau cyrhaeddiad a lles. Ers i'r lleoliad ailgofrestru fel darparwr addysg, mae wedi elwa o gael cymorth athro ymgynghorol. Mae hyn wedi dechrau helpu'r arweinydd i wneud gwelliannau i'r ddarpariaeth, ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar y safonau y mae plant yn eu cyflawni, yn enwedig mewn rhifedd a llythrennedd. Mae hefyd wedi golygu bod y lleoliad yn gallu manteisio ar ystod o hyfforddiant i gefnogi cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n dda gyda'r ysgol sydd drws nesaf. Mae hyn yn cynorthwyo pontio hwylus i'r plant i'r ysgol, ac mae'r lleoliad yn darparu sylfaen dda o fedrau Cymraeg fel bod y plant yn barod i ddysgu yn eu hamgylchedd newydd.

Mae gan y lleoliad bartneriaeth briodol â rhieni a gofalwyr sy'n gwerthfawrogi'r cyswllt anffurfiol â'r staff. Mae'r ymarferwyr yn cyfarch pob plentyn wrth iddynt gyrraedd ac maent ar gael i drafod unrhyw faterion gyda rhieni. Caiff rhieni wybodaeth ddefnyddiol cyn i'w plentyn ddechrau yn y lleoliad, ac mae ymarferwyr yn dangos enghreifftiau iddynt o waith eu plentyn yn rheolaidd er mwyn iddynt allu gweld y cynnydd y mae'n ei wneud. Fodd bynnag, nid yw rhieni'n derbyn gwybodaeth nac awgrymiadau ynglŷn â beth allant wneud i helpu eu plentyn gartref.

Mae'r lleoliad wedi defnyddio ardaloedd yn y gymuned, er enghraifft i gasglu dail ar gyfer gweithgareddau crefft, ond nid ydynt wedi elwa o ddatblygu cysylltiadau cymunedol i gefnogi dysgu'r plant.

Ceir perthnasoedd effeithiol gydag asiantaethau eraill, gan gynnwys gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a grwpiau lles. Mae'r rhain yn cyfrannu'n dda at hyrwyddo lles disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Mae digon o ymarferwyr â chymwysterau a phrofiad addas gan y lleoliad i weithio gyda phlant ifanc. Gwna'r arweinydd ddefnydd da o fedrau ac arbenigedd unigol ymarferwyr i gyflwyno meysydd dysgu penodol. Mae disgrifiadau swydd yn benodol i unigolion, ac mae'r arweinydd yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau. O ganlyniad, mae'r prosesau ar gyfer gwella safonau yn dechrau datblygu'n briodol.

Mae'r lleoliad yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ganddo i gefnogi'r addysgu a'r dysgu, ond mae adnoddau'n brin oherwydd cyfyngiadau ariannol. At ei gilydd, mae mwyafrif yr adnoddau o ansawdd digonol. Ceir diffyg adnoddau addas mewn lleiafrif o fannau, fel yn yr awyr agored, y gornel ddarllen a'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh. Yn ddiweddar, mae cymorth ariannol partneriaid allanol wedi dechrau gwella adnoddau.

Mae'r cynllun datblygu a'r broses werthuso yn nodi'r angen am hyfforddiant penodol. Fodd bynnag, mae heriau ariannol yn rhwystro gallu'r lleoliad i gefnogi ymarferwyr i fynychu'r holl gyrsiau perthnasol.

Nid yw rôl y pwyllgor rheoli wedi'i sefydlu, ac o ganlyniad, nid yw arweinwyr yn cael cyllid addas i wella ansawdd y ddarpariaeth yn ddigon effeithiol. Nid oes gweithdrefnau ariannol ar waith i sicrhau trylwyrder ac atebolrwydd wrth reoli cyllid y lleoliad. Mae'r trysorydd newydd yn gweithio i unioni hyn.

O ystyried y diffygion o ran nodi meysydd pwysig i'w gwella, darparu adnoddau digonol a diffyg trylwyrder wrth fonitro ei gyllid, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth anfoddhaol am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 o ymatebion. Ni fydd unrhyw ddata'n cael ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Vanessa Bowen | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed. |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |